**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**209 - Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 9 Rhagfyr 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Ymadael â'r UE) 2019 yng ngoleuni'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r Cytundeb Ymadael ("y Protocol") i adlewyrchu y parheir i gymhwyso fersiwn cyfraith yr UE o Reoliad (EC) Rhif 2003/2003 ar wrteithwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cymhwyso darpariaethau fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad (EC) Rhif 2003/2003, fel y mae'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr a'r Alban, i Ogledd Iwerddon (yn amodol ar addasiadau). Bydd hyn yn galluogi marchnata "gwrteithwyr y DU" yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd Rheoliad (EC) Rhif 2003/2003 fel y mae'n gymwys yng nghyfraith yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon yn rhinwedd y Protocol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 14 Rhagfyr 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.